**CYFARFOD Y CYNGOR** **18 CHWEFROR 2026**

# AGENDA

**1. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a gyflwynwyd gan aelodau.

**2. DATGAN BUDDIANNAU**

Yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant personol neu fuddiant sy'n rhagfarnu yn unrhyw eitem o fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3. COFNODION**

Cadarnhau bod cofnodion canlynol cyfarfod y Cyngor a'i bwyllgor yn gywir (copïau ynghlwm):

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 21 Ionawr 2026 | - | Cofnodion rhifau: | 127 - 140 |
| Y Pwyllgor Cynllunio | - | 21 Ionawr 2026 | - | Cofnodion rhifau: | 29 - 32 |

**4. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – MIS IONAWR 2026 (ATODLEN A)**

Derbyn yr adroddiad ar y cyd gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi ynghlwm).

**5. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad ar y cyd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi ynghlwm).

**6. DATGANIAD BLYNYDDOL 2024/25 – CASGLIAD YR ARCHWILIAD**

Derbyn adroddiad yr archwilydd allanol (Archwilio Cymru) ac adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copïau ynghlwm), a chymeradwyo Datganiad Blynyddol 2024/25.

**7. ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL INTERIM 2025/26**

Derbyn adroddiad interim yr Archwilydd Mewnol ar gyfer 2025/26 ac adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copïau ynghlwm), a chymeradwyo'r gweithredoedd a argymhellir.

**8. CYFRIFON HYD AT DDIWEDD MIS RHAGFYR 2025 A'R RHAGFYNEGIADAU**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid ynghylch sefyllfa ariannol y Cyngor Tref ar 31 Rhagfyr 2024 a'r rhagfynegiadau ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol (copi ynghlwm).

**9. SESIWN HOLI AC ATEB**

Derbyn cwestiynau gael aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol yn y cyfarfod

**10. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, y dylid eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, ar sail cyfrinachedd.

**11. Y GWEITHDY BLAENORIAETHAU**

Ystyried adroddiad mewn cyfrinachedd gan Glerc y Dref (copi ynghlwm) yn gofyn am benodi Hyrwyddwr i bob un o'r blaenoriaethau a bennwyd, yn dilyn y gweithdy a gynhaliwyd ym mis Ionawr.

**12. ADLEOLI SWYDDFEYDD Y CYNGOR TREF**

Derbyn adroddiad ar lafar, mewn cyfrinachedd, gan Glerc y Dref.

**13. Y SEFYDLIAD**

Derbyn adroddiad ar lafar, mewn cyfrinachedd, gan Glerc y Dref.

**14. DIWEDD Y CYFARFOD**

Y Maer i gyhoeddi diwedd y cyfarfod.